# Llawlyfr y Meithrin
# *Nursery Handbook*

YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN-Y-MÔR

Pennaeth / *Head teacher*:
Mrs Elin Wakeham


# Rhagair

Pleser o'r mwyaf yw cyflwyno i chi drwy gyfrwng y llawlyfr hwn ychydig o wybodaeth am y Dosbarth Meithrin yn Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr.

Mae'ch plentyn yn cychwyn ar ei d/thaith addysgol ac rydym am wneud y pontio o'r cartref i'r ysgol mor esmwyth â phosib.  Anelwn i sicrhau hyn trwy gyflawni'r amcanion isod.

# Ein Hamcanion:

- I ddarparu amgylchedd gofalgar, diogel a chyffrous i'ch plentyn ddysgu a datblygu.
- I ddarparu amgylchedd hapus, pleserus a hwylus sy'n galluogi plant i fod yn blant ac I adeiladu perthnasau gyda'i gilydd.
- I ddarparu cwricwlwm perthnasol, eang a chytbwys gyda'r pedwar diben yn ethos i bob penderfyniad cwricwlaidd.
- I ddatblygu annibyniaeth a lles eich plentyn
- I sefydlu perthynas dda rhwng yr ysgol a rhieni



Rydym yn ystyried y cyfnod hwn yn amser holl bwysig ym mywyd eich plentyn. Dyma'r cyfnod lle y gosodir y seiliau ar gyfer y dyfodol.

Os nad ydych fel rhieni yn medru siarad Cymraeg, peidiwch â phoeni! Trwy gael eu trwytho yn yr iaith o oed cynnar, mae plant yn datblygu rhuglder yn yr iaith yn fuan iawn. Mae'r gallu i siarad iaith arall yn agor drws i ddiwylliant arall. Dengys ymchwil fod plant sy'n siarad mwy nag un iaith yn gallu meddwl yn fwy creadigol a hyblyg, yn gallu datrys problemau a pherfformio'n well mewn profion.

***Dwy iaith- dwywaith y dewis a dwywaith y cyfleuoedd!***

Wedi i chi ddarllen y llawlyfr hwn efallai y byddech yn dymuno cael mwy o wybodaeth am y Dosbarth Meithrin. Os felly, mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol i siarad â mi neu'r athrawes ddosbarth.

Mrs Elin Wakeham

Head Teacher


# Foreword

It gives me great pleasure to present to you via this handbook, some information about the Nursery Class here in Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr.

Your child is about to embark on his/her educational journey and we wish to make the transition from home to school as smooth as possible. We endeavour to ensure this by achieving the aims below.

## Our Aims:

- To provide a safe, caring and stimulating environment in which your child can learn and develop.
- To provide a happy, pleasurable and fun environment, which allows children to be children and build relationships with each other.
- To provide a relevant, broad and balanced curriculum with the ethos of the four purposes at the heart of the curricular choices.
- To develop your child's independence and well being
- To establish a good relationship between the school and parents



We consider this period to be of utmost importance in your child's life. This is the period when the foundations are set for the future.

If you as parents are not able to speak Welsh, don't worry! As a result of being immersed in the language from a young age the soon become fluent. The ability to speak another language opens the door to another culture. This can appreciate the diversity of the world in which we live. Research shows that children that speak more than one language can think more creatively and flexibly, are better at problem solving and perform better in tests.

***Two languages- twice the choice and opportunities!***

After reading this handbook you may wish further information about the Nursery Class. If so, you are welcome to contact the school to speak with myself or the class teacher.

Mrs Elin Wakeham
Pennaeth

# Cyn Dechrau'r Ysgol

Gallwch gefnogi datblygiad eich plentyn drwy nifer o ffyrdd:

- Rhoi cyfle iddo/i gymdeithasu ag eraill, i ddysgu sut i chwarae a rhannu e.e. ymuno â Chylch Chwarae megis Cylch Ti a Fi
- Darllen storïau iddi/o.
- Canu hwiangerddi, caneuon a rhigymau rhif gyda'ch gilydd
- Siarad a gwrando ar eich plentyn
- Cynnwys eich plentyn mewn gweithgareddau bob dydd e.e. tacluso, coginio, cyfateb sanau/esgidiau
- Dilyn cyfarwyddiadau syml e.e. cer i nol dy fag.
- Cyfrif gwrthrychau bob dydd
- Gwylio rhaglenni Cymraeg ar Cyw Tiwb
- Chwarae gemau ar y cyfrifiadur neu'r iPad
- Siaradwch gyda'ch plentyn i'w b/pharatoi ar gyfer dechrau yn yr ysgol.
- Annog eich plentyn i fynd i'r tŷ bach yn annibynnol trwy dadwisgo, tynnu'r fflysh a golchi a sychu dwylo.
- Annog eich plentyn i wisgo'n annibynnol
- Annog eich plentyn i adnabod ei h/enw
- Dewch â'ch plentyn i'r ysgol i weld y dosbarth a chwrdd â'r staff (Cewch wahoddiad gyda'r dyddiad ymweld)

Cewch fwy o syniadau a dolenni i wefannau defnyddiol ar ein gwefan ysgol:

https://ysgol-gymraeg-bryn-y-mor.secure-primarysite.net/cyn-dechraur-meithrin-before-starting-nursery/

# Before Starting School

There are many ways that you can support your child's development:

- Give your child the opportunity to socialise with others, to learn to play
  and share e.g. join a playgroup such as Cylch Ti a Fi
- Read stories to her/him.
- Sing nursery rhymes, songs and counting rhymes together
- Speak and listen to your child
- Give your child simple instructions to follow e.g. Get your bag.
- Include your child in everyday activities e.g. tidying up, cooking, shopping, matching socks/shoes
- Count everyday objects
- Watch Welsh programmes on S4C - Cyw
- Play games on the computer or iPad
- Encourage your child to go to the toilet independently, by undressing, flushing the toilet and wash and dry their hands
- Encourage your child to dress independently
- Encourage your child to recognise their name
- Talk to your child to prepare him/her for starting school
- Bring your child to visit the classroom and the staff. (Your child will receive an invitation with a date for your visit)

You can find many more ideas and links to useful websites on our school website:
https://ysgol-gymraeg-bryn-y-mor.secure-primarysite.net/cyn-dechraur-meithrin-before-starting-nursery/

# Dechrau'r Ysgol

## Oriau'r Meithrin

**Sesiwn Bore: 8:50– 11:20y.b.**

**Sesiwn Prynhawn: 12:50-3:20y.h.**

### Sesiwn Bore:

Ewch drwy'r giât ar waelod y buarth i hebrwng eich plentyn i'r dosbarth. Fe fydd staff y Meithrin yn y dosbarth o 8:35y.b. i groesawu'r plant.

### Sesiwn Prynhawn:

Bydd aelod o staff yn croesawu eich plentyn wrth y giât ar waelod y buarth ac yna yn ei tywys i'r dosbarth.

### Prydlondeb ac Absenoldebau

Mae'n bwysig i sicrhau bod eich plentyn yn cyrraedd ysgol ar amser ac yn cael ei g/chasglu yn brydlon. (Rhaid llofnodi'r Llyfr Hwyr yn y Swyddfa os ydych yn hwyr.)
Os ydy eich plentyn yn absennol, a wnewch chi roi wybod i'r ysgol mor gynted â phosib naill ai drwy ffonio, neu drwy ebostio'r ysgol.

### Casglu Disgyblion

Gofynnir i chi hysbysu'r ysgol o enwau'r oedolion sydd â hawl i gasglu eich plentyn o'r ysgol drwy gwblhau ffurflen briodol.
Rhowch wybod i'r ysgol os ydy trefniadau casglu'ch plentyn ar ddiwedd y sesiwn yn newid.

**Nid ydym yn rhyddhau plentyn i ofal oedolyn arall os nad ydym wedi ein hysbysu ymlaen llaw bod newid i'r trefniadau hynny.**

## Gofal Iechyd/Meddyginiaeth

Rhowch wybod i ni am unrhyw glefyd, afiechyd neu alergedd sydd ar eich plentyn. Byddwn yn ddiolchgar petaech yn ceisio amseru meddyginiaeth o gwmpas oriau'r ysgol. Os nad yw hwn yn bosib, mae croeso i chi ddod i'r ysgol i roi'r moddion i'ch plentyn neu i alw yn y swyddfa i lenwi ffurflen feddyginiaeth. Ni fydd unrhyw feddyginiaeth yn cael ei gweinyddu heb gwblhau'r ffurflen hon.

## Gwisg Ysgol

Mae gwisg ysgol swyddogol gan yr ysgol. Does dim gorfodaeth ei gwisgo'n ddyddiol er bod llawer yn gwneud felly, ond disgwylir i bawb ymdrechu i'w gwisgo i gyngherddau neu gyfarfodydd arbennig. (Gweler Prospectws yr Ysgol)

Gellir prynu 'r wisg ysgol yn:

- Nash Sports (ar y we)
- J & S Leisurewear, Ty Coch
- Bergoni, Llansamlet

Dylid sicrhau bod enw eich plentyn ar bob ddilledyn, bag a phob eiddo arall, er mwyn hwyluso'r broses o ddod o hyd i eitemau sydd yn mynd ar goll.

## Gwisgo'n Addas i'r Tywydd

Rydyn yn defnyddio'r iard fach beth bynnag yw'r tywydd, felly mae'n bwysig bod y plant wedi'u gwisgo'n addas.
Fe fydd angen cot, menig a het yn ystod y gaeaf a het haul yn ystod y tywydd poeth.

**COFIWCH ROI ELI HAUL AR EICH PLENTYN CYN DOD i'R YSGOL.**

## Dillad Sbâr

Ar adegau mae plant yn cael damwainion neu yn gwlychu ei dillad wrth chwarae. Sicrhewch fod dillad sbâr a phecyn o 'wet wipes' gyda'ch plentyn yn y bag pob dydd rhag ofn.

## Addysg Gorfforol

Fe fydd eich plentyn yn cymryd rhan mewn gwersi Addysg Gorfforol yn wythnosol. A wnewch chi sicrhau ei fod e/ei bod hi'n gwisgo jogyrs du ac esgidiau ymarfer ar y diwrnodau yma. Rhennir gwybodaeth am y diwrnodau ar ddechrau'r flwyddyn addysgol.

## Amser Snac

Rydyn yn ceisio hybu bwyta'n iach yma'n Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr. Bydd angen darn o ffrwyth a photel o ddŵr wedi'i labeli gydag enw eich plentyn yn glir, pob dydd.

Mae Amser snac yn gyfle hyfryd i gymdeithasu gyda ffrindiau ac i ddysgu am hylendid personol.

**Byddwch yn amyneddgar! Rhowch ddigon o amser i'ch plentyn gyfarwyddo â'r ysgol. Gall yr amser hyn amrywio o blentyn i blentyn.**

**Yn ystod y diwrnodau cyntaf, mae'n debygol y bydd rhai plant yn ddagreuol ac mae hynny'n naturiol. Os yw eich plentyn yn anhapus, mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol er mwyn tawelu eich meddwl a gwirio ei bod/fod wedi setlo.**

**Os oes unrhywbeth yn eich poeni neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, fe fydd yr athrawes ddosbarth yn hapus i geisio helpu. Yr amser orau i drafod gyda'r athrawes yw ar ddiwedd y sesiwn.**

# Starting School

## Nursery Hours

| | |
|---|---|
| **Morning Session:** | **8:50– 11:20a.m.** |
| **Afternoon Session:** | **12:50-3:20p.m.** |

### Morning Session:
Enter at the gate on the Yard and escort your child to the classroom. Nursery staff will be ready to welcome the children from 8.35a.m. onwards.

### Afternoon Session:
A member of staff will welcome your child at the gate on the Yard and walk them to the class.

### Punctuality and Absences
It is important to ensure that your child arrives on time and is collected promptly. (You must sign the Late Book in the office if you are late.)
Please inform the school of any change in arrangements regarding the collection of your child at the end of the session.
In the case of absence, please inform the school at the earliest opportunity either by telephone or emailing the school.

### Collecting pupils
You will be asked to complete a form informing the school of the names of adults authorised to collect your child. Please inform the school of any change in arrangements regarding the collection of your child at the end of the session.

**We do not release a child into another adult's care if we have not been notified beforehand of a change to the usual arrangement.**

## Health Care/Medicines

You will need to inform us if your child suffers from any ill health, disease or allergy.
We would appreciate it if you try timing medication around school hours.
If this is not possible, you are welcome to come to school to give your child the
medication yourself or call into the office to fill out a medication form.
Staff will not administer medication without completing this form.

## School Uniform

There is an official school uniform, the daily wearing of which is optional.
However, on special occasions or stage performances, uniformity of dress is
required. (See the School Prospectus)
The school uniform may be purchased locally at:

- Nash Sports (online)
- J & S Leisurewear, Ty Coch
- Bergoni, Llansamlet

All article of clothing, bag and other belonging should be marked with the child's name so that mislaid items can be recovered easily.

## Dressing Suitably for the Weather

Whatever the weather, we use the Little Yard, therefore it is important that your child is suitably dressed.
S/he will need a coat, gloves and hat in winter months and a sun hat when the weather improves.

**REMEMBER TO APPLY SUN LOTION BEFORE COMING TO SCHOOL.**

## Spare clothes

On occasions children may have accidents or get wet/dirty and need to be changed. We ask that there is always a change of clothes and a packet of wet wipes in your Childs bag in case they are needed.

## Physical Education

Your child will participate in weekly PE lessons. Please ensure that she/he is wearing black joggers and trainers on these days. Information regarding the days will be given at the beginning of the academic year.

## Snack time

We endeavour to promote healthy eating here in Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr. Please ensure your child has a piece of fruit and a drink labelled with their name every day.

Snack time is a great opportunity to socialise with friends and to learn about personal hygiene.

**Be patient! Allow sufficient time for your child to settle in at school. This time can vary from child to child. Naturally, some children will be tearful during the first few days and we appreciate that it can also be an anxious time for parents. You are very welcome therefore, to contact the school to check that your child has settled and to put your mind at rest. If you ha ve any general worries or questions, the class teacherwill do her best to help. Staff are busy during the school day therefore the best time to talk with the teacher is before the session begins or at the end of the session.**

# Addysgeg

Rydym yn ceisio cyffroi ac ysgogi dysgu plant, gwella eu cyrhaeddiad a rhoi'r dechrau gorau posib i bob plentyn. Fe fydd y cwricwlwm a'r amgylchedd wedi'u cynllunio a strwythuro i alluogi eich plentyn i fod yn chwilfrydig a wedi ymgysylltu'n llwyr a'i dysgu.
Fe fydd cyfle i'ch plentyn i archwilio'i h/amgylchedd dysgu a dysgu sgiliau newydd yn ogystal â datblygu sgiliau mae eisioes wedi'i h/ennill.
Fe fydd chwarae addysgol gweithredol yn cefnogi ei d/ddysgu ar draws y chwe Maes Dysgu a phrofiad sef:



## Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mae'r datblygiad a'r defnydd o iaith a chyfathrebu yn holl bwysig i ddysgu plant ifanc. Fe fydd pwyslais ar ddatblygu sgiliau gwrando a siarad i osod sylfeini cadarn ar gyfer darllen ac ysgrifennu.
Fe fydd gweithgareddau'n cynnwys, chwarae rôl, mwynhau llyfrau, canu, chwarae gemau, gwneud marciau ac ysgrifennu cynnar.

## Mathemateg a Rhifedd

Bydd eich plentyn yn cyfrif, didoli a chyfateb gwrthrychau, yn datblygu ei dd/dealltwriaeth o iaith fathemategol mewn cyd-destun, yn archwilio a chreu patrymau, yn dechrau archwilio priodweddau siapiau ac yn datblygu ei dd/dealltwriaeth o fesurau.
Fe fydd y gweithgareddau'n ymarferol iawn ac yn cynnwys chwarae gemau, chwarae rôl a chanu rhigymau rhif.

## Dyniaethau

Bydd eich plentyn yn cael cyfleodd i drafod amseroedd a digwyddiadau sydd yn arbennig iddyn nhw. Byddant yn cymharu pethau yn y gorffennol a nawr. Cawn gyfle i archwilio'r amgylchedd a dysgu sut i'w ofalu amdani, ynghyd â adnabod pam mae llefydd yn bwysig iddyn nhw.
Fe fydd gweithgareddau'n cynnwys edrych ar debygolrwydd a gwahaniaethau rhyngddyn nhw ei hun a'i ffrindiau, dysgu am ganlyniadau, mynegi ei hoffter/casineb, archwilio'r ardal leol; ymweld â'r parc a'r traeth, darganfod a dechrau gofyn cwestiynau syml a chynnig atebion synhwyrol wedi ei seilio ar brofiadau blaenorol.

## Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Bydd eich plentyn yn derbyn cyfleoedd di-ri i fod yn chwilfrydig a dod o hyd atebion ynghyd a rhagfynegi. Byddant yn disgrifio ffenomena naturiol e.e. y tywydd ac enfys, ac archwilio grymoedd e.e. suddo ac arnofio. Byddant yn arsylwi ar bethau byw ac yn ceisio esbonio sut ydyn yn newid. Bydd eich plentyn hefyd yn cael cyfleodd i ddefnyddio dyfeisio digidol e.e. tabledi, teganau roboteg a chamerâu digidol.
Fe fydd gweithgareddau yn cynnwys defnyddio'i synhwyrau, archwilio, arbrofi, holi cwestiynau, enwi, dosbarthu a chreu pethau.

## Iechyd a Lles

Bydd eich plentyn yn dysgu am ffordd o fyw iachus ac arferion gofal personol. Bydd eich plentyn yn dysgu amdano/i ei hunain a'i b/pherthynas ag eraill. Caiff ei h/annog i ddatblygu ei hunan-barch, ei g/chredoau p/bersonol a'i g/werthoedd moesol. Bydd yn datblygu dealltwriaeth bod gan bobl eraill anghenion, galluoedd, credoau a safbwyntiau gwahanol. Fe fydd eich plentyn yn datblygu ei sgiliau cydsymud, ei g/chydbwysedd, ei rheolaeth, ei sgiliau echddygol bras a manwl, a'i sgiliau llawdrinol.
Fe fydd gweithgareddau yn cynnwys mynegi teimladau, gweithio/chwarae ar y cyd, siarad am yr hyn sydd yn dda/ddrwg, yn gywir/anghywir, yn deg/annheg, trafod dathliadau, gofalu am yr amgylchedd. Fe fydd gweithgareddau'n cynnwys rhedeg, neidio, sgipio, reidio beiciau, taflu a dal offer mawr a bach, defnyddio siswrn, tynnu lluniau, peintio a sialco.


## Celfyddydau Mynegiannol

Mae creadigrwydd yn hanfodol i ddysgu llwyddiannus. Mae bod yn greadigol yn galluogi plant i wneud cysylltiadau rhwng y meysydd dysgu ac felly'n ymestyn eu dealltwriaeth. Mae'r broses o fod yn greadigol yr un mor bwysig a'r gwaith orffenedig.
Mae'r maes yn cynnwys gweithgareddau fel peintio, tynnu lluniau, dylunio a gwneud modelau, arbrofi, canu, gwrando ar a chreu cerddoriaeth, dawnsio a chwarae rôl.

Ymhlyg â'r cwricwlwm rhoddir pwyslais ar ddatblygu sgiliau ar draws y cwricwlwm. Bydd eich plentyn yn cael ei h/annog I gaffael, datblygu ymarfer a chymhwyso sgiliau meddwl, llythrennedd, ymhwysedd digidol a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Trwy ddatblygu ei sgiliau ar draws y cwricwlwm bydd yn datblygu'n ddysgwr annibynnol a chyd-ddibynnol.

# Pedagogy

In the nursery class we aim to excite and stimulate children's learning, improve their attainment and secure the best possible start for them. The curriculum and classroom environment will be planned and structured to enable your child to be curious and engaged.
Your child will have the opportunity to explore his/her learning environment and to learn new skills in addition to developing skills previously acquired.
Active educational play supports your child's learning across the six Areas of Learning and Experience:



## Languages, Literacy and Communication

The development and use of communication and language is at the heart of young children's learning. Emphasis will be on developing speaking and listening skills to lay sound foundations for reading and writing. Activities include rôle play, enjoying books, singing, playing games, making marks and pre-writing activities.

## Mathematics and Numeracy

Your child will count, sort and match objects. He/she will develop his/her understanding of mathematical language in context, explore and create patterns, will begin to explore the properties of shape and develop his/her understanding of measures. Activities will be very practical and include playing games, rôle play, and singing number rhymes

## Humanities

Your child will have opportunities to discuss times and events that are special to them. They might look at the past and compare things with how they are today. They will expolore their environment and learn how to care for it and recognise why places are important to them. Activities will include looking at similarities/differences between themselves and others, learn about consequences, express their likes/dislikes, explore the local area, visit the park and the beach, discover and begin to ask simple questions and offer possible answers based on previous experiences.

## Science and Technology

Your child will have ample opportunities to be curious and search for answers along with making predictions. They will begin to describe natural phenomena such as the weather and rainbows and explore the power of forces e.g. floating and sinking objects. They will observe living things and begin to explain how the change.  They will also be given opportunities to use digital devices such as tablets, robotic toys and digital cameras.  Activities include exploring, experimenting, asking questions, identifying, classyfing, and making things.

## Health and Wellbeing

Your child will learn about having a healthy lifestyle and personal hygiene routines. They will learn about feelings and emotions and will be encouraged to develop his/her self-esteem, personal beliefs and moral values. He/she will develop an understanding that others have differing needs, abilities, beliefs and views. Your child will be developing their coordination, their balance, their control, their gross and fine motor skills, and his/her manipulative skills.
Activities include cooking and preparing food, expressing feelings, working/playing together, talking about what is good/bad, right/wrong, fair/unfair, discussing celebrations, caring for the environment, running, jumping, skipping, riding bikes, throwing and catching large and small apparatus, cutting, pencil control, painting, chalking.

## Expressive Arts

Creativity is fundamental to successful learning; it enables learners to become curious and creative individuals. Being creative enables children to make connections between one area of learning and another, and so extending their understanding. The process of creating is equally important as the end result. Activities include painting, drawing, modelling, experimenting, singing, listening to and making music, dance and imaginative play.

Emphasis is put on developing skills across the curriculum. Your child will be encouraged to acquire, develop, practice and apply thinking, communication, digital competency and numeracy skills across the curriculum. By developing their skills across the curriculum, they will become independent and interdependent learners.

# Y Math Gorau o Ddosbarth

Dyma'r math gorau o ddosbarth:
Heb waliau na ffenestri,
Dim ond llwyfan i ddysgu.

Dyma'r math gorau o ddosbarth:
Lle ceir coed nid cadeiriau,
Ac awyr las heb ffiniau.

Dyma'r math gorau o ddosbarth:
Lle ceir awel ar fochau
A gwên ar wynebau.

Dyma'r math gorau o ddosbarth:
Gardd i blannu hadau,
A meithrin syniadau.
Fe dyfant nes cyrraedd y c'mylau.

Dyma'r math gorau o ddosbarth:
Lle awn am daith wrth ddysgu'n gwaith
Drwy ofod ac amser.
Cawn deimlo gwir bleser.
Mae pob un yn cyfri
A'n hapus i rannu.

Dyma'r math gorau o ddosbarth:
Lle nad ond mewn llyfrau mae dysgu am ffeithiau
Lle mae gwrando a gwylio,
Meddwl a theimlo,
Yn dweud llawer mwy na gall geiriau.

**Mr Rhys Jones**
**Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr**

# The Best Kind of Classroom

This is the best kind of classroom:
No walls, just sky and trees
This is the best kind of classroom:
No radiators, just gentle breeze.

You can learn well here,
As the birds sing,
About your place,
In the scheme of things.

This is the best kind of classroom:
It's a journey through time and space.
From the smallest seed to the largest tree
This is a forest and a learning place.

This is the best classroom:
Where the seasons don't happen in books
Where learning is watching and thinking and talking
And everyone notices, everyone looks.

**Ian McMillan**